Y Fonesig Rosemary Butler AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

10 Rhagfyr 2015

Annwyl Lywydd

## Cyflwyniad

Diolch i chi am wahodd y Pwyllgor i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Busnes. Rwy'n ymddiheuro bod yr ymateb hwn yn hwyr. Ychydig yn unig o amser sydd ar gael ac roeddem yn awyddus i neilltuo digon o amser i drafod y materion pwysig hyn.

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y sylwadau hyn yn eich cynorthwyo yn eich trafodaethau.

**Maint a strwythur pwyllgorau**

**Strwythur**

Roedd mwyafrif y Pwyllgor yn cytuno bod gweithredu pwyllgorau polisi a deddfwriaeth cyfunol yn well na strwythur sy'n gwahanu'r polisi a'r gwaith craffu deddfwriaethol.

Mynegodd un aelod y byddai'n well ganddynt wahanu'r swyddogaethau hyn a'u dyrannu i  bwyllgorau ar wahân.

Wrth ddod i'r farn hon, cydnabu'r Pwyllgor y gall gwaith craffu deddfwriaethol amharu ar ei allu i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif mewn meysydd polisi eraill. Ar yr adegau mwyaf prysur o ran ei lwyth gwaith, roedd amser y Pwyllgor yn ystod y

flwyddyn wedi'i rannu'n fras yn ei hanner rhwng y ddwy agwedd hyn ar waith craffu.

Yn ogystal, nododd y Pwyllgor fod datblygu arbenigedd polisi yn galluogi aelodau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â gwaith craffu deddfwriaethol; a bod cyfuno swyddogaethau deddfwriaethol a pholisi yn gwneud y defnydd gorau o amser Aelodau'r Cynulliad.

Mae proses ddeddfwriaethol gyfredol y Cynulliad yn creu tensiwn penodol i bwyllgorau, ac yn benodol felly y rhaniad yn y dull rhwng Cam 1 a Cham 2. Mae'r tensiwn hwn yn codi o'r aelodau yn mabwysiadu eu dull 'consensws' arferol i Gam 1, ond wedyn yn cael cyfarwyddyd i ddilyn dymuniadau'r blaid yng Nghyfnod 2. Gall hyn arwain at rai penderfyniadau sy'n ymddangos yn anghydweddol yn cael eu gwneud.

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio adolygu ei brofiad o graffu ar ddeddfwriaeth a bydd yn ystyried y ffordd orau o adrodd ar hyn, os bydd ganddo'r amser i gynnal yr adolygiad hwn.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y byddai addasu strwythur y pwyllgorau i adlewyrchu portffolios gweinidogol yn creu mwy o atebolrwydd ac, i raddau, yn cynnig y potensial i ddosbarthu'r llwyth gwaith deddfwriaethol yn fwy cyfartal (er na fyddai'n gwneud hynny'n llwyr).

### Maint Pwyllgorau

Er na chafwyd cytundeb ar faint delfrydol pwyllgorau, cytunodd y Pwyllgor y dylent fod yn llai yn y Pumed Cynulliad. Roedd consensws ynghylch cael 6-8 o aelodau (yn dibynnu ar gydbwysedd y pleidiau) ac na ddylai maint y pwyllgorau fod yn seiliedig ar geisio cynnwys pob grŵp plaid ar bob pwyllgor. Yn ogystal, dylai strwythur y pwyllgorau gael ei gynllunio i sicrhau na fydd unrhyw Aelod o'r Cynulliad yn eistedd ar fwy na dau bwyllgor.

## Amserlen

### Yr wythnosau pan fydd y Cynulliad yn eistedd

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r wythnos eistedd gael ei chyfyngu i ddyddiau Mawrth, Mercher a Iau. Mae'n cytuno bod yn rhaid ystyried dydd Iau fel diwrnod eistedd llawn, er y dylid ystyried yr Aelodau hynny sy'n wynebu teithiau hir ar ddydd Iau er mwyn dychwelyd i'w hetholaethau.

Maent yn credu bod yr amser a dreulir yn eu hetholaethau ar ddydd Llun a dydd Gwener yn hanfodol i'w rôl yn cynrychioli eu hetholwyr.

**Amserlennu**

Cytunodd y Pwyllgor fod rhinwedd mewn archwilio dulliau mwy arloesol at amserlennu busnes y Cynulliad. Er enghraifft, drwy edrych ar gylch fyddai'n caniatáu ar gyfer patrymau gwahanol o fusnes ar wahanol wythnosau. Gallai hyn gynnwys wythnos yn canolbwyntio ar waith pwyllgora wedi'i dilyn gan wythnos yn canolbwyntio ar waith y cyfarfod llawn. Ffactor ychwanegol i'w ystyried yw amser grŵp dynodedig a fyddai'n caniatáu i aelodau ddatblygu safbwyntiau a allai wedyn gael eu bwydo i mewn i fusnes ffurfiol y Cynulliad.

Roedd Aelodau hefyd yn cydnabod y gallent lunio eu gwaith yn wahanol. Mynegodd rhai aelodau y byddai'n well ganddynt gyfyngu ar hyd y cyfarfodydd i dair awr. Roedd rhywfaint o gefnogaeth ar gyfer cwrdd yn llai aml er mwyn caniatáu mwy o fyfyrio ar y dystiolaeth a glywyd ac i ganiatáu mwy o baratoi.

**Agwedd at fusnes pwyllgorau**

Yn seiliedig ar eu profiad o gasglu tystiolaeth yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, credai Aelodau y dylid dyrannu mwy o amser i ystyried tystiolaeth ysgrifenedig; gweithdai/trafodaethau gyda rhanddeiliaid; ac ymweliadau canfod ffeithiau gan bwyllgorau. Dylai llai o amser gael ei neilltuo i'r dull traddodiadol o gasglu tystiolaeth lafar hy gwahodd paneli o dystion i gyfarfod pwyllgor er mwyn eu holi.

Teimlai un aelod y dylai'r Pwyllgor ymgymryd â mwy o waith o'i ben a'i bastwn ei hun, yn hytrach na gwaith mandadol y mae'n rhaid iddo ymgymryd ag ef ee craffu ar Fesurau.

**Mynd allan o'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i bwysleisio pa mor bwysig ydyw ei fod yn gallu cynnal ymweliadau canfod ffeithiau a busnes arall ledled Cymru a thu hwnt. Nodwyd bod trefniant presennol busnes y Cynulliad yn gosod cyfyngiadau ar allu pwyllgorau i wneud hyn ar adegau. Teimlai'r Aelodau fod y gweithgareddau allanol hyn yn ychwanegu gwerth at ei rôl o ran cynrychioli pobl Cymru a llywio ei waith craffu o ran gweithgarwch y Llywodraeth.

Gallai newidiadau arloesol i strwythur busnes y Cynulliad a lleihau maint pwyllgorau hwyluso'r math hwn o weithio yn well.

## Y Cyfarfod Llawn

Cytunodd y Pwyllgor nad oedd yn teimlo fod yr amser a ddyrennir ar gyfer busnes y cyfarfod llawn yn cael ei ddefnyddio'n dda. Yn benodol, roedd consensws ynghylch yr angen i brynhawniau Mercher fod yn fwy cynhyrchiol.

O ran y cysylltiad rhwng cyfarfodydd llawn a'r pwyllgorau, mynegodd yr Aelodau rywfaint o rwystredigaeth am y cyfnod cymharol fyr o amser a ddyrennir ar gyfer dadleuon ar adroddiadau pwyllgorau a'r terfyn amser o bum munud ar gyfraniadau.

Byddai Aelodau yn hoffi gweld mwy o gyfleoedd i gynnwys busnes pwyllgorau yn y cyfarfod llawn. Er enghraifft, y cyfle i gael dadl ar ddechrau proses ymchwiliad.

Cydnabu'r Pwyllgor y gallai fod wedi sbarduno mwy o ddadleuon o fewn ei bwerau presennol, a hynny thrwy labelu allbynnau fel adroddiadau a'u gosod gerbron y Cynulliad.

## Yr amserlen ddeddfwriaethol

Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu atoch o'r blaen, ac fe gofnodwyd y mater mewn man arall, i godi pryderon am y broses o gynnig cydsyniad deddfwriaethol; yr amser sydd ar gael i graffu ar Filiau; a'r dull tuag at Orchmynion Adran 109. Gellir darparu enghreifftiau penodol os byddent o ddefnydd i chi yn eich trafodaethau etifeddiaeth.

Mae'r broses ddeddfwriaethol wedi arwain at rwystredigaeth i aelodau'r pwyllgor. Credwn fod rhinwedd mewn archwilio dulliau gweithdrefnol eraill yn gynnar yn y Pumed Cynulliad. Dylid ystyried sut y gallai datblygiadau gweithdrefnol arloesol yn y maes hwn gael eu treialu.

## Pwyllgor Gweithdrefnau

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnig barn ar fanteision nac ar anfanteision sefydlu pwyllgor o'r fath.

Roedd yn cefnogi sefydlu Fforwm i Gadeiryddion ac yn credu y dylai'r strwythur hwn gael ei ffurfioli yn y Cynulliad nesaf.

## Materion eraill

### Penodiadau cyhoeddus

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, mae nifer o swyddi cyhoeddus newydd ac arwyddocaol wedi cael eu creu o fewn maes gwaith y Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru a Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Galwodd y Pwyllgor am i'r Cynulliad neu bwyllgor fod yn rhan o'r penodiadau cyhoeddus hyn.

Roedd hyn wedi'i seilio ar y gred y byddai ychwanegu cam cyhoeddus arall i'r broses benodi sy'n cynnwys y Cynulliad yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd o ran y penodiad terfynol; yn cadarnhau dilysrwydd y sawl a benodir; ac yn darparu tystiolaeth o annibyniaeth barn yr ymgeisydd.


Mae hefyd o fewn dyletswydd y Pwyllgor i ystyried penderfyniadau gweinidogol fel rhan o'r broses graffu.

Mae rolau cyfatebol yn y DU yn destun proses gyn-benodi yn Nhŷ'r Cyffredin (er enghraifft, Cadeirydd Natural England a Chadeirydd Asiantaeth yr Amgylchedd).

Fel y mae, mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn ffordd lai tryloyw ac agored na Senedd y DU a Llywodraeth y DU o safbwynt craffu ar benodiadau cyhoeddus allweddol.

Mae'r Pwyllgor yn credu bod y trefniadau ar gyfer y mathau hyn o benodiadau yn haeddu ystyriaeth gan y Pwyllgor Busnes newydd (neu'r Pwyllgor Gweithdrefnau os bydd un yn cael ei sefydlu) ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

Yn gywir



Alun Ffred Jones AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**